

GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU
PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 (RHIF AMRYWIO 23) 2022

Mae Cyngor Sir Penfro (“y Cyngor”), drwy arfer ei bwerau o dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 49, 53, 101, 102 a 124 a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“y Ddeddf”) fel y'i diwygiwyd, darpariaethau Deddf Rheoleiddio Traffig 2004 (“Deddf 2004”) a holl bwerau galluogi eraill y Ddeddf, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:-

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar y 24 diwrnod o Mawrth 2022 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 (Rhif Amrywio 23) 2022.
2. Mae Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) 2011 (“y Gorchymyn Cydgrynhoi”), gan gynnwys yr atodlenni a gynhwysir ynddo ac amrywiadau dilynol, yn cael ei amrywio neu ei ddiwygio fel a ganlyn:-

1 Diwygio Atodlen 2

Yn Atodlen 2.18 – Dim aros 8pm–7am i Garafannau a Charafannau Modur, dylid mewnosod:-

A487 Niwawl

Ochr ogleddol – y gilfan ogleddol a leolir ar bwynt tua 275 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Welsh Road.

Ochr ddeheuol – i) y gilfan ddeheuol a leolir ar bwynt tua 70 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Welsh Road.

ii) y gilfan ddeheuol a leolir ar bwynt tua 340 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Welsh Road.

Welsh Road

Y ddwy ochr – o'r gyffordd â'r A487 yn Niwgwl, i'r de i'w chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (C3067) sy'n arwain i'r Garn yn Cliff Cottages.

2) Dirymiadau

Mae'r darnau hynny o ffyrdd sydd wedi'u cynnwys yn "y Gorchymyn Cydgrynhoi", gan gynnwys yr atodlenni sydd ynddynt ac amrywiadau dilynol, yn cael eu dirymu drwy hyn lle y crybwyllir yn benodol neu pan fo'r diwygiad fel y'i cynhwysir yn y gorchymyn hwn yn darparu diffiniad newydd o'r cyfyngiad sy'n berthnasol i'r rhan honno o'r briffordd.

RHODDWDYD o dan Sêl Gyffredinol Cyngor Sir Penfro ar y 18 diwrnod hwn o Mawrth, Dwy Fil Dau Ddeg Dau.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDINOL CYNGOR SIR
PENFRO** at hyn ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig